



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Profion darllen a rhifedd
yng Nghymru

**GWYBODAETH I RIENI /
GOFALWYR BLWYDDYN 2 - 9**

Cynnwys

Pam gafodd y profion cenedlaethol eu cyflwyno?	3
Sut brofion ydynt?	4
Pryd fydd y profi yn digwydd?	5
Oes rhaid i bob plentyn sefyll yr arholiadau?	5
Beth all y profion ddweud wrthyf am ddysgu fy mhlentyn?	6
Sut fydda i'n gwybod canlyniadau fy mhlentyn yn y profion?	7
Beth yw sgôr safonedig?	8 - 9
Beth yw sgôr cynnydd?	10 - 11
Pa mor ddibynadwy yw'r canlyniadau o'r profion hyn?	12
A ddylwn helpu fy mhlentyn i baratoi ar gyfer y profion?	12
Alla i helpu fy mhlentyn i wella eu darllen a'u rhifedd?	13
Cysylltiadau defnyddiol	14

ISBN: 978-1-4734-1072-5

WG21419

© Hawlfraint y Goron Mawrth 2014

Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

Mae plant o Flwyddyn 2 i 9 bellach yn sefyll profion cenedlaethol mewn darllen a rhifedd pob haf. Mae'r daflen hon yn egluro beth fydd y profion yn ei olygu a'r hyn fydd canlyniadau'r profion yn ei ddweud am ddysgu eich plentyn.



Pam gafodd y profion cenedlaethol eu cyflwyno?

Mae ysgolion wedi defnyddio profion erioed i weld pa mor dda y mae plant yn datblygu. Mae trefnu profion cenedlaethol sydd wedi'u datblygu'n benodol i Gymru'n golygu fod gan athrawon ym mhob ysgol yr un gwybodaeth o ran sgiliau darllen a rhifedd eu disgyblion. Mae hefyd yn ei gwneud yn bosibl i gael darlun o lwyddiant cenedlaethol yn y pynciau hyn. Gall y profion gymharu llwyddiant mewn darllen a rhifedd yn eu hysgolion gyda'r hyn sy'n digwydd yn genedlaethol.



Sut brofion ydynt?

Darllen

Mae'r profion darllen yn cynnwys cwestiynau byr yn seiliedig ar ddau neu fwy o destunau. Bydd rhai o'r cwestiynau yn canfod pa mor dda y mae'r disgybl wedi deall y testun, a'r lleill yn anelu at weld a yw plant yn gallu llunio barn am yr hyn y maent yn ei ddarllen. Cyn i'r prawf ddechrau, caiff y plant gyfle i ymarfer rhai cwestiynau er mwyn iddynt wybod sut fathau o gwestiynau yw'r ddau fath, a'r hyn fydd yn cael ei ofyn.

Mae profion darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae pob prawf yn cymryd hyd at awr ond caiff y plant ieuengaf seibiant hanner ffordd drwy'r prawf. Mae plant ym Mlynnyddoedd 4 i 9 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn sefyll y profion yn y ddwy iaith. Dim ond y prawf darllen Cymraeg mae disgwyl i blant ym Mlynnyddoedd 2 a 3 eu cymryd, er y gall ysgolion ddewis i adael i ddisgyblion Blwyddyn 3 sefyll y prawf darllen Saesneg hefyd.

Rhifedd

Mae dau fath o brofion rhifedd.

1. Mae'r prawf gweithdrefnol yn mesur sgiliau rhif, mesur a data.
2. Mae'r prawf rhesymu yn mesur pa mor dda y gall blant ddefnyddio yr hyn y maent yn ei wybod i ddatrys problemau pob dydd.

Mae cyfieithiadau Cymraeg a Saesneg ar gael ar gyfer y ddau brawf. Mae pob prawf rhifedd yn cymryd hyd at hanner awr, ond eto, caiff y plant ieuengaf egwyl yn ystod y profion.



Pryd fydd y profi yn digwydd?

Bydd pob ysgol yn rhoi'r prawf i'w disgyblion yn ystod y cyfnod o **7 i 13 Mai 2014**. O fewn y cyfnod hwn, mae'n rhaid i'r ysgol drefnu amserlen y profion a dylent adael i chi wybod pryd fydd eich plentyn yn sefyll y profion. Gall y plant sefyll y profion mewn grwpiau dosbarth neu mewn grwpiau mwy, efallai yn neuadd yr ysgol.

Oes rhaid i bob plentyn sefyll yr arholiadau?

Dylai'r rhan fwyaf o blant sefyll y profion, ond efallai y bydd angen trefniadau mynediad arbennig ar rai ohonynt. Er enghraifft, mae fersiynau print bras a Braille o'r profion ar gael i blant sydd â phroblemau gweld. Nifer fechan iawn o blant fydd ddim yn gallu sefyll y profion. Bydd penaethiaid yn ystyried yn ofalus a ddylai rhai plant sefyll un neu fwy o'r profion.



Beth all y profion ddweud wrthyf am ddysgu fy mhlentyn?

Gall y profion roi gwybodaeth ddefnyddiol i ychwanegu at yr hyn y mae athro eich plentyn yn ei wybod am eu sgiliau darllen a'u rhifedd o'u gwaith bob dydd yn y dosbarth. Gall athrawon ddefnyddio'r canlyniadau i nodi cryfderau a hefyd y meysydd ble mae'n bosib y bydd angen rhagor o help. Efallai y byddant yn rhannu'r wybodaeth hon gyda chi yn ystod cyfarfodydd rhieni.

Fodd bynnag, dim ond profi ystod cyfyng o sgiliau a galluoedd y gall unrhyw un prawf ei wneud. Ni all y profion darllen roi unrhyw wybodeth am sgiliau siarad, gwranddo neu ysgrifennu. Ni all y profion rhifedd profi dealltwriaeth eich plentyn o ffurf a gofod. Ni fydd rhai plant yn rhoi o'u gorau ar ddiwrnod y prawf. O ganlyniad, ni fydd canlyniadau'r prawf ohonynt eu hunain yn rhoi darlun cyflawn o'u gallu. Mae pob prawf wedi'i gynllunio i fesur cyrhaeddiad ar draws yr ystod disgwylidig ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Ni fydd y profion yn rhoi gwybodaeth ddibynadwy bob amser am blant sy'n gweithio ar eithaf yr ystod ar gyfer eu hoedran.

Mae'n bwysig i drafod cynnydd eich plentyn gyda'u hathro yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ganddynt, yn hytrach na chanolbwyntio ar ganlyniad un prawf. Mae hefyd yn bwysig i gofio nad yw pob plentyn yn datblygu ar yr un raddfa.



Sut fydda i'n gwybod canlyniadau fy mhlentyn yn y profion?

Erbyn diwedd tymor yr haf, byddwch yn derbyn canlyniadau gan yr ysgol o bob prawf mae eich plentyn wedi'i sefyll. Dylid darllen y canlyniadau ochr yn ochr ag adroddiad blynyddol eich plentyn.

Mae'r profion yn rhoi dau fath o sgôr, un safonol a sgôr cynnydd. Mae'r ddau fath yma o sgôr yn wahanol iawn i'r sgoriau y gallech fod wedi dod ar eu traws mewn sefyllfaoedd eraill, er enghraifft 9 allan o 10 neu 65%.



Beth yw sgôr safonedig?

Nid yw sgôr o '6 allan o 10' er enghraifft yn ystyried pa mor anodd yw prawf neu sut y mae un plentyn wedi ei wneud o gymharu â phlant eraill sy'n sefyll y prawf. Os yw y rhan fwyaf o'r disgyblion eraill oedd yn sefyll y prawf wedi cael sgôr o 9 allan o 10, yna nid yw 6 yn sgôr dda. Ond os mai 2 allan o 10 oedd cyfartaledd y sgôr, yna mae 6 yn sgôr dda iawn. Bydd y sgôr safonedig o'r profion cenedlaethol yn dweud wrthyhch

pa mor dda y mae eich plentyn wedi perfformio o gymharu â phlant eraill o'r un oedran sy'n sefyll yr un prawf ar yr un pryd. Mae'r sgôr safonedig ar gyfartaledd wedi ei bennu ar 100 a bydd gan oddeutu dwy ran o dair o'r plant sy'n sefyll y prawf sgôr safonedig o rhwng 85 a 115. Felly, **gallai** sgôr safonedig sy'n is na 85 olygu bod rhywfaint o anhawster gyda darllen neu rifedd fel y caiff ei fesur yn y prawf.

Mewn rhai achosion, gallai cymhlethdod y cwestiynau mewn prawf olygu nad yw'n bosib cofrestru sgôr safonedig ar gyfer plentyn ble mae eu sgiliau darllen a rhifedd yn datblygu'n arafach na'r disgwyl. Dim ond 'llai na 70' fyddai'n bosib ei roi. Os mai dyma'r achos, bydd athro eich plentyn yn defnyddio dulliau eraill i asesu sut y mae eu sgiliau yn datblygu. Un o'r pethau y gallai athro ei wneud fyddai gadael i'ch plentyn ateb y cwestiynau o brawf ar gyfer y grŵp blwyddyn is i weld a yw hyn yn helpu i gael darlun gwell o ble, o bosibl, y mae angen help er mwyn gweld cynnydd.




Felly hefyd, dim ond sgôr safonedig o 'dros 140' y gellir ei roi i'r rhai sy'n cyflawni'n uchel iawn, gan nad yw'r prawf yn mesur terfyn eu sgiliau. Eto, bydd yn bosibl i'r athrawon roi mwy o wybodaeth i chi am allu eich plentyn.

Beth yw sgôr cynnydd?

Roedd defnyddio profion wedi'u cynllunio'n arbennig ar draws wyth o grwpiau blwyddyn wedi golygu bod cyfle unigryw i fapio datblygiad sgiliau darllen a rhifedd wrth i blant symud drwy'r ysgol. Rydym wedi datblygu graddfeydd sgôr cynnydd ar gyfer pob un o'r tri set o brofion (darllen, rhifedd (gweithdrefnol) a rhifedd (rhesymu)) i roi darlun o sut y mae sgiliau'n cymharu mewn gwahanol grwpiau blwyddyn. Caiff y graddfeydd eu creu drwy ddefnyddio modelau

ystadegol sy'n ystyried lefel anhawster pob cwestiwn ar draws pob prawf. Mae'r modelau'n gymhleth ond eu bwriad, yn syml, yw ei gwneud yn bosib i fesur gwelliant mewn darllen a rhifedd o un flwyddyn i'r llall. Bydd hefyd yn bosib gweld a yw safonau darllen a rhifedd ar draws y wlad yn newid dros amser. Cyn belled â bod eich plentyn yn sefyll y profion pob blwyddyn, bydd yn bosibl ichi ddilyn eu datblygiad fel y caiff ei fesur gan y profion.



Mae'r siart hwn yn dangos sut y mae'n bosibl i'r profion fesur cynnydd. Mae'r sgoriau cynnydd sy'n cael eu dangos ar gyfer pob plentyn sy'n sefyll y prawf Blwyddyn 3 yn 2013 a'r prawf Blwyddyn 4 yn 2014. Mae'r llinell soled ar y siartiau sgôr cynnydd yn cynrychioli'r canolbwynt yn y sgoriau cynnydd a gafwyd ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Byddai disgwyl i hanner y plant sy'n sefyll yr arholiad gyrraedd sgôr sydd rhwng y ddwy linell doredig. Byddai gan chwarter y disgyblion sydd ymhob grŵp blwyddyn sgoriau cynnydd sy'n uwch na'r llinell doredig uwch a chwarter y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn sgoriau is na'r llinell doredig is. Mae'r disgybl hwn wedi gwneud cynnydd sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd i'w ddisgwyl ar gyfer ei grŵp blwyddyn.

At ddiben y graff hwn, nid yw'r disgyblion hynny sy'n sgorio 0 neu sydd â dim sgôr na'r disgyblion hynny gyda'r sgôr uchafswm wedi ei cynnwys oherwydd eu bod yn cynrychioli eithafoedd y raddfa, sydd ddim yn ddibynadwy iawn.



Pa mor ddibynadwy yw'r canlyniadau o'r profion hyn?

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, gyda chynngor gan ymarferwyr ac arbenigwyr ledl-led Cymru, wedi datblygu'r profion a'r modelau ystadegol ar gyfer y sgoriau. Mae rhai o'r nodweddion yn gyfarwydd iawn, ac eraill megis y model graddfa sgoriau cynnydd yn newydd ac wedi'u creu i fodloni gofynion penodol Llywodraeth Cymru. Dechreuodd y gwaith o ddatblygu'r profion yn ystod yr hydref 2012 ac mae'r gwaith o sicrhau bod canlyniadau'r profion mor gywir â phosib wedi parhau yn dilyn eu defnyddio 'yn fyw' am y tro cyntaf yn ystod yr haf 2013. Mae'r model ar gyfer cynhyrchu'r sgoriau cynnydd a'r sgoriau safonol ar gyfer darllen wedi'u gwella bellach o ganlyniad i'r gwaith hwn. Yn 2014 bydd pob ysgol yn derbyn canlyniadau wedi'u diweddarau ar gyfer profion darllen yn 2013 sy'n adlewyrchu'r gwelliannau hyn ac yn rhoi sylfaen gadarn i edrych ar gynnydd rhwng 2013 a 2014 ac i'r dyfodol.

A ddylwn helpu fy mhlentyn i baratoi ar gyfer y profion?

Na ddylech. Un darn o dystiolaeth yw'r profion am gyflawniad eich plentyn. Y ffordd orau i baratoi eich plentyn yw gwneud yn siŵr nad ydynt yn poeni.



Alla i helpu fy mhlentyn i wella eu darllen a'u rhifedd?

Gallwch, yn bendant! Gall helpu gyda dysgu eich plentyn yn y cartref a thu allan i'r cartref wneud gwahaniaeth mawr i'w datblygiad. Byddai unrhyw un o'r canlynol yn help mawr.

- Mae darllen a siarad am unrhyw fath o destun megis llyfrau, cylchgronau, tudalennau ar y we, taflenni, hysbysebion.
- Defnyddio rhifau wrth siopa, cynllunio teithiau, edrych ar sgoriau pêl-droed, amser rhaglenni teledu.
- Rhannu gweithgareddau sy'n golygu darllen a rhifedd fel coginio, chwarae gemau bwrdd, gwylio neu gymryd rhan mewn chwaraeon, ysgrifennu e-byst.
- Trafod geiriau a rhifau rydych yn dod ar eu traws o ddydd i ddydd.

Cysylltiadau defnyddiol

Cewch ragor o gyngor a chanllawiau ar gynorthwyo eich plentyn wrth ddarllen a thrin rhifau drwy edrych ar y gwefannau canlynol.

Darllen yn well – awgrymiadau a syniadau defnyddiol am sut i ddarllen â phlentyn.
www.betterreading.co.uk/cy

Rho amser i ddarllen – tudalen Facebook sy'n codi ymwybyddiaeth o'r pwysigrwydd o wneud amser i ddarllen gyda plant.
www.facebook.com/maketimetoread

Mae **Booktrust Cymru** wedi creu ystod o raglenni a phrosiectau i helpu unigolion o bob oed a chefnidir i fwyhau darllen a rhifedd.
www.booktrust.org.uk/cymru

Adnodd ar-lein rhad ac am ddim gan y **BBC** i helpu plant gyda'i gwaith cartref.
www.bbc.co.uk/cymru/dysgu

Llyfrgelloedd Cymru – gallwch gael gwybod beth sy'n digwydd mewn llyfrgelloedd, chwilio am lyfrau, ymuno ar lein, dod o hyd i'ch llyfrgell agosaf, gofyn cwestiynau anodd, darllen adolygiadau ar lyfrau, a llawer mwy.
www.welshlibraries.org/cy

Y Sbridiau ar Hwb – Amrywiaeth o gemau ysgogol a heriol wedi'u seilio ar gymeriadau'r Sbridiau i ddatblygu sgiliau rhifedd.
<http://bit.ly/1fKiWLL>

BBC Cyngor i rieni* – o help gyda gwaith cartref i Anghenion Addysgol Arbennig, gwybodaeth am sut i helpu eich plentyn yn yr ysgol.
www.bbc.co.uk/schools/parents

Estyn – gwybodaeth am berfformiad eich ysgol.
www.estyn.gov.uk

Prydau ysgol am ddim – ewch i <http://bit.ly/1j5BVj7> i weld os ydych yn gymwys

Newid am Oes – syniadau am brydiau bwyd i gadw chi a'ch teulu'n holliach.
www.change4lifewales.org.uk/?skip=1&lang=cy

MEIC – Llinell gymorth eiriolaeth, gwybodaeth a chynghor i blant a phobl ifanc.
www.meiccymru.org/cy

Her darllen yr haf* – darllen drwy'r gwyliau haf.
www.summerreadingchallenge.org.uk

Hwb – platfform dysgu Cymru, yn llawn adnoddau defnyddiol.
<https://hwb.wales.gov.uk>

Sut mae ysgol eich plentyn yn perfformio? Gwefan sy'n rhoi gwybodaeth am berfformiad ysgolion ledled Cymru.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk>

* Dim ond yn Saesneg y mae'r wefan hon ar gael.